# Partneriaeth
# Tyfu Canolbarth Cymru / Growing Mid Wales Partnership

**Dydd Llun 21 Tachwedd 2022**
**Monday 21 November 2022**
10.30am
Cyfarfod Rhithiol
Virtual Meeting

**Yn bresennol**
Y Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd Cyngor Sir Powys **(Cadeirydd) (Cyngh. JG-W)**
Angharad Massow, Tyfu Canolbarth Cymru **(AM)**
Ann Elias, Cyngor Sir Ceredigion **(AE)**
Ann Watkin, Llywodraeth Cymru **(AW)**
Arwyn Watkins, Hyfforddiant Cambrian **(ArW)**
Barbara Green, Tyfu Canolbarth Cymru **(BG)**
Barry Rees, Cyngor Sir Ceredigion **(BR)**
Carly McCreesh, Cwmpas **(CMcC)**
Carwyn Jones-Evans, Cyngor Sir Ceredigion **(CJE)**
Catherine Isik, Llywodraeth Cymru **(CI)**
Catherine Mealing-Jones, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog **(CM-J)**
Cathy Martin, Tyfu Canolbarth Cymru **(CMn)**
Ceri Stephens, Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru **(CS)**
Claire Miles, Tyfu Canolbarth Cymru **(CMs)**
Y Cynghorydd Jackie Charlton, Cyngor Sir Powys **(JC)**
Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd, Cyngor Sir Ceredigion **(Cyngh. BD)**
Y Cynghorydd Clive Davies, Cyngor Sir Ceredigion **(Cyngh. CD)**
Y Cynghorydd Keith Henson, Cyngor Sir Ceredigion **(Cyngh. KH)**
Y Cynghorydd David Selby, Cyngor Sir Powys **(DS)**
David Owen, Tyfu Canolbarth Cymru **(DO)**
Deralyn Mawdsley, Llywodraeth Cymru **(DM)**
Gary Mitchell, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys **(GM)**
Hazel Lloyd-Lubran, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion **(HL)**
Hywel Davies, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant **(HD)**
John Collingwood, Tyfu Canolbarth Cymru **(JC)**
Nathan Richards, Llywodraeth Cymru **(NR)**
Nia Williams, Cyd-bwyllgor Iechyd Canolbarth Cymru **(NiaW)**
Nicola Williams, Cyngor Sir Powys **(NW)**
Rebecca Rees, Croeso Cymru **(RR)**
Rhian Hayward, ArloesiAber **(RH)**
Rhodri Llwyd Morgan, Prifysgol Aberystwyth **(RLlM)**
Russell Hughes-Pickering, Cyngor Sir Ceredigion **(RH-P)**
Thomas Yeo, Tyfu Canolbarth Cymru **(TY)**
Vanessa Cashmore, Coleg Ceredigion **(VC)**

**Siaradwyr**
Iain Donnison, Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS)
David Bryant, Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS)

Darparwyd y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfarfod hwn gan Sian Jones, Cyfiaith.

Estynnodd y Cadeirydd, y Cyngh. James Gibson-Watt, Arweinydd Cyngor Sir Powys, groeso i bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd bobl i'r sawl a oedd yn bresennol.

| | |
|---|---|
| **1.** | **Ymddiheuriadau am absenoldeb**<br>Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol:-<br>Aggie Caesar-Homden, Tyfu Canolbarth Cymru **(ACH)**<br>Andrew Cornish, Coleg Ceredigion **(AC)**<br>Arwyn Davies, Cyngor Sir Ceredigion **(AD)**<br>Catherine Lewis, Grŵp Colegau NPTC **(CL)**<br>David Madge, Cwmpas (**DM)**<br>Eifion Evans, Cyngor Sir Ceredigion **(EE)**<br>Gavin Bown, Cyfoeth Naturiol Cymru **(GaB)**<br>Glenn Bowen, Cwmpas **(GlB)**<br>Lowri Gwilym, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru **(LG)**<br>Mark Dacey, Grŵp Colegau NPTC **(MD)**<br>Mark Williams, Llywodraeth Cymru **(MW)**<br>Nigel Brinn, Cyngor Sir Powys **(NB)**<br>Peter Howells, NFU Cymru **(PH)**<br>Peter Skitt, Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Y GIG **(PS)**<br>Rebecca Jeremy, Cyngor Sir Powys **(RJ)** |
| **2.** | **Cofnodion**<br>Nododd y Cyngh. CD fod y fersiwn Saesneg o gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2022 yn cynnwys dau nodyn marcio newidiadau, ac nad oedd yn glir a oedd y cofnodion wedi'u diwygio. Cynigiodd y Cyngh. CD fod y cofnodion yn gywir, a chafodd hynny ei eilio gan y Cyngh. KH.<br><br>**GWEITHREDU:** Angen gwirio ac ailddosbarthu'r cofnodion i'r grŵp ar ôl y cyfarfod (BG). |
| **3.** | **Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU**<br>Rhoddodd Carwyn Jones-Evans ddiweddariad ar lafar a rhoddodd gyflwyniad byr ar ei rôl a'i gyfrifoldebau fel Rheolwr Twf a Datblygiadau Mawr ac ar rannu'r rôl arweiniol â Nicola Williams, Cyngor Sir Powys.<br><br>Bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn gweithredu ar draws y ddau awdurdod lleol. Disgwylid diweddariad ffurfiol o Ddatganiad yr Hydref a gafwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU, ond ni chafwyd mohono. Mae'r gyllideb ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn dal ar gael, ac roedd trafodaethau parhaus wedi bod yn digwydd rhwng Gweinidogion a swyddogion. Nid oedd ymateb ffurfiol i'r cynllun buddsoddi rhanbarthol (a gyflwynwyd ym mis Awst) wedi dod i law o hyd. Mae'r ddau awdurdod lleol wedi parhau i gydweithio â'i gilydd i sefydlu'r trefniadau angenrheidiol ar draws y rhanbarth. Mae gwaith mapio wedi'i gyflawni ar lywodraethu a datblygu'r partneriaethau lleol sy'n bodoli eisoes, er mwyn cyflawni'r rolau a fydd yn ofynnol i reoli arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn lleol. Mae rheolwr rhanbarthol wedi'i recriwtio gan gymryd risg, oherwydd nad oes unrhyw gyllid wedi'i gadarnhau. Mae cydweithwyr yn y ddau awdurdod yn cydweithio i sefydlu'r trefniadau gymaint ag sy'n bosibl heb gael cadarnhad ffurfiol gan Lywodraeth y DU. Roedd fersiwn cyhoeddus o'r cynllun buddsoddi rhanbarthol wedi'i ddatblygu, ac mae'r rhanbarth yn barod i ddechrau gweithio cyn gynted ag y bydd cymeradwyaeth ffurfiol wedi cael ei rhoi.<br><br>Mae amserlenni'n dynn yn awr ar gyfer y flwyddyn gyntaf o gyllid. Bydd rhywfaint o wariant ôl-weithredol cymwys ar gael, ond mae'r ddau awdurdod yn ofalus wrth wario oherwydd nad ydynt wedi cael cadarnhad llawn ynghylch cyllid. Mae trafodaethau â Llywodraeth y DU wedi bod yn canolbwyntio ar weithio gyda'r rhanbarth, bod yn hyblyg a gweithio'n ogystal tuag at gadarnhau cymhwystra a sut y bydd y Gronfa yn gweithio. Mae'n bwysig bod y ddau awdurdod lleol yn deall y manylion ariannol yn llawn er mwyn |

| | |
|---|---|
| | i’r Penaethiaid Cyllid roi caniatâd i’r prosesau sydd ar waith ddechrau. Mae’r ddau awdurdod lleol wrthi’n gweithio ar adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd Cabinet mis Rhagfyr, a bydd yr adroddiadau hynny’n cynnwys rhai manylion ynghylch y trefniadau gweithredu a sut y bydd y Gronfa yn gweithio. Mae’r fersiwn cyhoeddus o’r cynllun yn egluro sut y bydd y Gronfa yn gweithio ac yn cyfathrebu â chymunedau lleol yn y rhanbarth. Mae’r amserlenni yn hollbwysig yn y pen draw, oherwydd nid oes unrhyw adborth ffurfiol nac unrhyw arwydd ynglŷn â hyblygrwydd y cynllun wedi dod i law hyd yma.<br><br>Ymatebodd Catherine Isik (CI), y Dirprwy Arweinydd Ardal ar gyfer De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru o ran Cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU. Cadarnhaodd CI fod y gwaith ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn mynd rhagddo fel y cyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref a gafwyd yn ddiweddar. Mae gwaith yn parhau gyda’r awdurdodau lleol, ond cydnabuwyd nad oedd fawr ddim cynnydd wedi’i wneud ers mis Awst. Mae’r gwaith o ddilysu’r cynlluniau buddsoddi wedi digwydd, ac mae hynny’n cael ei drafod ar hyn o bryd â Thrysorlys Ei Fawrhydi ac Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau er mwyn cytuno beth fydd y camau nesaf.<br><br>Gofynnodd y Cyngh. BD a oedd unrhyw atebion ar gael i’r cwestiynau cynharach ynghylch Multiply, y rhaglen sgiliau digidol a sgiliau llythrennedd. Atebodd CI gan ddweud bod trafodaethau byw yn mynd rhagddynt â’r Ysgrifennydd Gwladol a Thrysorlys Ei Fawrhydi, ond nad oedd unrhyw ddiweddariad pellach ar gael.<br><br>Ychwanegodd y Cyngh. DS ei fod yn pryderu am amserlenni ac am y defnydd o gyllid Blwyddyn 1; bydd yn anodd i’r prosiectau wario’r cyllid erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. A oes unrhyw sicrwydd y bydd arian yn gallu cael ei gario drosodd i’r blynyddoedd a fydd yn dilyn? Nid oedd CI yn medru cadarnhau hynny, ond mae pob un o’r pedwar cynllun buddsoddi sydd yng Nghymru wedi nodi bod hyblygrwydd yn risg sylweddol, ac mae hynny’n cael ei ystyried ar lefel uwch. Pan fydd gwybodaeth ar gael, bydd yn cael ei rhannu â’r awdurdodau lleol. Diolchodd y Cadeirydd i CI am ei chyfraniad ac am fynychu’r cyfarfod. |
| **4.** | **Bargen Twf Canolbarth Cymru – Diweddariad ynghylch Cynnydd**<br>Rhoddodd Cathy Martin (CMn) adroddiad ysgrifenedig gan dynnu sylw at yr agweddau canlynol.<br><br>Mae’r Fargen Twf yn gwneud cynnydd da ac mae amser wedi’i fuddsoddi mewn asesu’r achosion busnes a gyflwynwyd ar gyfer y prosiectau annibynnol o restr fer y Portffolio. Mae’r rhain wedi’u hasesu ar gyfer cam cyntaf y broses 3 cham, ac wedi’u cyflwyno i’r Grŵp Rheoli a’r Bwrdd. Caniatawyd i chwech o’r saith a ddaeth i law yn wreiddiol symud ymlaen i’r cam nesaf, ac mae’r prosiect sy’n weddill yn ailgyflwyno ei Achos Amlinellol Strategol. Ers y cyfarfod a nodwyd yn yr adroddiad, mae Achos Amlinellol Strategol arall wedi dod i law ac mae’n cael ei asesu ar hyn o bryd. Mae prosiect arall wedi cyrraedd y cam sy’n ymwneud ag astudiaeth ddichonoldeb ac mae’n paratoi i gyflwyno ei Achos Amlinellol Strategol. Fe’i disgwylir ddechrau 2023.<br><br>Mae dwy raglen ar waith: y Rhaglen Ddigidol a’r Rhaglen Safleoedd ac Eiddo. Mae’r ddwy raglen yn mynd rhagddynt yn dda iawn. Mae John Collingwood wedi ymuno â’r tîm erbyn hyn fel Rheolwr y Rhaglen Safleoedd ac Eiddo. Mae bwrdd rhaglen cysgodol ar waith, ac mae tendr allan er mwyn caffael gwasanaeth ymgynghorydd i gynnal asesiadau manwl o safleoedd.<br><br>Ffocws nesaf y Fargen Twf fydd rhyddhau cyllid cyfalaf ar ddechrau’r flwyddyn ariannol nesaf er mwyn cyflawni’r Portffolio. Mae angen tystiolaeth er mwyn dangos cynnydd yng nghyswllt y prosiectau a’r rhaglenni, ac yng nghyswllt achos busnes y |

| | |
|---|---|
| | Portffolio sy'n cael ei ddiweddaru cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth y DU ddechrau 2023. At hynny, mae'r Bwrdd wrthi'n comisiynu llywodraeth i gynnal adolygiad sicrwydd, a fydd yn sicrhau bod y systemau a'r prosesau ar waith i gyflawni'r Fargen Twf.<br><br>Mae Angharad Massow, y Swyddog Cyfathrebu, wedi gwneud cynnydd da o ran cyfathrebu ers iddi gael ei phenodi ym mis Mehefin. Mae rhywfaint o'r gwaith a gyflawnwyd yn cynnwys diweddaru'r strategaeth gyfathrebu, llunio canllawiau ynghylch brand, a llythyr newyddion Tyfu Canolbarth Cymru sy'n cael ei ddosbarthu bob mis yn ddigidol drwy ebost ac sydd i'w weld hefyd ar wefan Tyfu Canolbarth Cymru. Mae cytundeb peilot 12 mis ar waith gyda Busnes Cymru ar gyfer rhoi sylw i weithgarwch Tyfu Canolbarth Cymru ochr yn ochr â newyddion lleol ar ei wefan.<br><br>**GWEITHREDU:** Os yw cydweithwyr am gael copi o lythyr newyddion Tyfu Canolbarth Cymru – cysylltwch â'r tîm: growingmidwales@ceredigion.gov.uk<br>Roedd y Cadeirydd am egluro rhai agweddau ar y Fargen Twf i unrhyw unigolion yr oedd eu hymwneud â'r Fargen Twf a'u gwybodaeth ddiweddaraf amdani yn llai helaeth nag ymwneud a gwybodaeth ddiweddaraf swyddogion yr awdurdodau lleol ac aelodau'r cynghorau. Y brif agwedd yw eitem 2.4 a'r broses o gael cyllid gan y Fargen Twf, yn enwedig cyllid cyfalaf a chyllid refeniw. Eglurodd CM mai cyllid cyfalaf yw cyllid y Fargen Twf ar gyfer cefnogi seilwaith economaidd ar raddfa fawr. Nid oes cyllid refeniw; ni chaiff noddwyr prosiectau unrhyw gyllid refeniw i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu eu hachosion busnes neu gyda'u costau gweithredol parhaus. Bydd angen i noddwyr prosiectau gael gafael ar gyllid refeniw drwy ffrydiau cyllido eraill. Dyna pryd y croesawodd y Cadeirydd John Collingwood i'r tîm.<br><br>**CWESTIYNAU/SYLWADAU**<br>Cyngh. CD: Faint o gynnydd sydd wedi'i wneud o ran y Grŵp Cynghori Economaidd?<br>CMn: Mae'r Grŵp Cynghori Economaidd yn cynnwys chwe aelod o'r sector preifat sy'n darparu cymorth i'r Fargen Twf. Cafwyd dau gyfarfod hyd yma, ac roedd yr un diwethaf a gynhaliwyd ym mis Medi yn ymdrin â manylion y Fargen Twf a'r asesiadau o'r prosiectau. Mae gweithdai'n cael eu trefnu ar hyn o bryd gyda'r aelodau etholedig. Bydd noddwyr prosiectau'n cyflwyno eu prosiectau er mwyn i'r grŵp allu eu deall yn well a deall sut y bydd y rhanbarth yn elwa ohonynt. Bwriedir cynnal tri gweithdy yn ystod mis Rhagfyr (2) a mis Ionawr (1), ac mae'n bosibl y bydd pedwerydd gweithdy'n cael ei gynnal, yn dibynnu ar amserlenni.<br><br>Cyngh. BD: A yw'r chwe phrosiect sy'n weddill wedi symud ymlaen i'r cam nesaf?<br>CMn: Maent yn symud ymlaen i'r cam nesaf yn awr ac yn ystyried pryd y gallant gyflwyno eu Hachosion Busnes Amlinellol. Nid oes yn rhaid i'r prosiectau gyflwyno'r achosion busnes erbyn dyddiad penodol, oherwydd mae gwaith yn cael ei gyflawni gyda nhw i sicrhau eu bod yn cyflwyno gwybodaeth o safon a'u bod yn cytuno ar derfynau amser y mae modd eu bodloni. Mae rhai'n awgrymu y byddant yn barod ym mis Rhagfyr. Bwriedir cynnal gweithdy ddydd Mercher (DATE) gyda'r noddwyr prosiectau er mwyn adolygu'r amryw agweddau ar y broses sy'n ymwneud ag achosion busnes ac er mwyn ystyried beth y bydd yr asesiadau'n chwilio amdano, a fydd yn cynnwys agweddau penodol ar yr Achosion Amlinellol Strategol, amserlenni a meysydd cyffredinol i'w nodi yn y broses.<br><br>Ceri Stephens (CS): A oes yna gyfle i gael gwybodaeth am aelodau'r Grŵp Cynghori Economaidd newydd? Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael ar hyn o bryd am y grŵp.<br>CMn: Mae hynny'n cael ei ystyried. Nid oes llawer o amser wedi mynd heibio ers i'r grŵp gychwyn, a dim ond dau gyfarfod sydd wedi'u cynnal mor belled. Mae'n fwy na thebyg y bydd rhagor o wybodaeth ar gael ar ôl i'r gweithdai ddigwydd. Mae'r dudalen am y Tîm ar y wefan yn cael ei diweddaru ar hyn o bryd, a bwriedir |

| | |
|---|---|
| | ychwanegu siartiau sy'n esbonio'r strwythur a phwy sy'n rhan ohono. Gellir rhannu manylion y Grŵp ar ôl y cyfarfod hwn.<br><br>Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai hefyd yn ddefnyddiol pe bai cylch gwaith y Grŵp Cynghori Economaidd, neu esboniad o'r hyn y bydd disgwyl iddo ei wneud, yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r wybodaeth am ei aelodau. Mae cael gwybodaeth am y Fargen Twf wedi bod yn broblem yn y gorffennol, yn bennaf oherwydd y meini prawf a bennwyd gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae'r broses hon fel pe bai'n gwella erbyn hyn, er ei bod yn hirfaith.<br><br>**GWEITHREDU:** CMn i rannu manylion aelodau'r Grŵp Cynghori Economaidd ar ôl y cyfarfod. |
| 5. | **Y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol – Diweddariad ynghylch Cynnydd**<br><br>Cyflwynodd Nicola Williams (NW), Rheolwr Rhaglenni ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r Cyd-arweinydd Strategol ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru, y diweddariad ynghylch y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gan nad oedd Aggie Caesar-Homden (AC-H) yn bresennol. Cafodd adroddiad ysgrifenedig a dogfen ategol eu darparu gan AC-H.<br><br>Yng nghyfarfod diweddar Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol roedd Emma Thomas, Aber Instruments, wedi'i phenodi yn Gadeirydd newydd. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r gweithgarwch hyd yma, yr eitemau agenda a'r cyflwyniadau a gafwyd. Mae'r Cynllun Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau 3 Blynedd wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn iddo gael ei adolygu. Mae gwaith ymgysylltu â busnesau wedi digwydd drwy gydol y broses ac wedi'i gynnwys yn y cynllun gweithredu. Mae gwaith ymgynghori wedi digwydd o fewn Bwrdd y Bartneriaeth er mwyn datblygu cynllun cyflogaeth a sgiliau ar wahân sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth a rhanddeiliaid, a fydd yn cael ei lansio yn ystod gwanwyn 2023.<br><br>Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi penodi Swyddog Prosiect a fydd yn gyfrifol yn benodol am y Warant i Bobl Ifanc. Bydd y Swyddog Prosiect yn cychwyn yn ei swydd ym mis Rhagfyr.<br><br>**CWESTIYNAU/SYLWADAU**<br>Arwyn Watkins (ArW): Mae'r tri rhanbarth arall yn lansio eu cynlluniau nhw y mis yma. A oes unrhyw reswm penodol pam nad yw rhanbarth y canolbarth yn lansio ei gynllun tan fis Mawrth?<br>NW: Mae'r cynllun gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, ac mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn disgwyl am adborth. Nid yw NW yn ymwybodol bod y rhanbarthau eraill yn lansio eu cynlluniau nhw y mis yma, ond bydd yn trafod hynny ag AC-H.<br><br>**GWEITHREDU:** NW i ofyn i AC-H pam nad yw cynllun y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cael ei lansio yr un pryd â chynlluniau'r tri rhanbarth arall, ac a fyddai modd lansio'r cynllun yn gynt nag a fwriadwyd. AC-H i anfon ateb i ArW yn uniongyrchol.<br><br>Nododd ArW ei bod yn bwysig ystyried hyn pan fo'r gwaith yn berthnasol i Gymru gyfan a bod blaenoriaethau a meysydd newydd yn cael eu llunio, a phan fydd gwaith comisiynu'n dechrau ar gyfer y flwyddyn nesaf ac y gallai rhanbarth y canolbarth fod yn colli cyfle. Cafodd y pwynt ei nodi gan NW i'w drafod ag AC-H.<br><br>Cyngh. BD: O ran eitem 4.4 yn yr adroddiad, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi anfon holiadur allan ynghylch addysg ôl-16 yn y sir. Byddai'n werth i'r wybodaeth a geir o'r |

| | |
|---|---|
| | holiadur gael ei bwydo’n ôl i’r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, oherwydd bydd yn berthnasol i addysg bellach a phrentisiaethau. Nododd NW y pwynt a bydd yn ei rannu ag AC-H er mwyn iddo gael ei drafod.<br><br>Barry Rees (BR): Cyfeiriodd at bwynt y Cyngh. BD ac at fewnbwn ehangach ar draws y rhanbarth, gan ddweud bod yr amser cwblhau drafft gyda phrif bartneriaid y ddogfen yn dynn. Er bod y ddogfen gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, mae gwaith yn mynd rhagddo ar lunio ymatebion ac ychwanegiadau i’r cynllun. Anfonodd Aggie wahoddiad allan ar 17 Tachwedd i bobl ymgysylltu’n fwy helaeth â’r cynllun wrth iddo fynd drwy’r cam drafftio, a cheir rhai agweddau y byddai Cyngor Sir Ceredigion yn hoffi eu trafod ymhellach.<br><br>Rhodri Llwyd Morgan, Prifysgol Aberystwyth (RLlM): A yw’n bosibl cael rhagor o wybodaeth am y Grŵp Strategaeth y sonnir amdano yn yr Adroddiad Blynyddol?<br><br>NW: Nid oedd NW yn medru ateb y cwestiwn, ond bydd yn ei rannu ag AC-H a fydd yn ateb RLlM yn uniongyrchol.<br>Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw un arall a oedd yn bresennol yn gallu ateb y cwestiwn hwn.<br>Dywedodd Vanessa Cashmore o Goleg Ceredigion (VC) wrth y cyfarfod fod cyfarfodydd wedi’u cynnal ynghylch y colegau a’r darparwyr hyfforddiant preifat sydd yn y rhanbarth.<br>**GWEITHREDU:** AC-H i ddarparu rhagor o wybodaeth i Grŵp y Bartneriaeth am y Grŵp Strategaeth arfaethedig.<br><br>Nododd y Cadeirydd fod yna broblem allweddol ynglŷn â’r pedwar rhanbarth a’r ffaith nad yw rhanbarth y canolbarth yn lansio ei gynllun tan fis Mawrth 2023. Mae hynny’n codi cwestiwn ynghylch y cyfathrebu sy’n digwydd rhwng y rhanbarthau, a thynnodd sylw at y ffaith bod gan Sir Drefaldwyn a Gwynedd gysylltiadau cryf yn hanesyddol â Cheredigion a Phowys a bod y gwasanaethau a ddarperir gan fusnesau ac ati megis Hyfforddiant Cambrian yn croesi ffiniau rhanbarthol. A fyddai’n bosibl cadarnhau bod cydlynu da’n digwydd rhwng y rhanbarthau ar sail y pwyntiau uchod ac o safbwynt gweithio’n drawsffiniol?<br><br>**GWEITHREDU:** Yn y cyfarfod nesaf, AC-H i amlinellu’r rhwydweithiau sydd ar waith ar gyfer cyfathrebu â’r rhanbarthau eraill. |
| **6.** | **Diweddariadau ynghylch Busnes**<br>**6.1 Adroddiad y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol**<br>Darparodd Claire Miles (CM) adroddiad ysgrifenedig a dogfen ategol i’r cyfarfod. Gan fod y cyfarfod diwethaf wedi’i ganslo oherwydd y cyfnod o alaru cenedlaethol, mae angen rhoi sylw i sawl agwedd yn yr adroddiad hwn.<br><br>**Sioe Frenhinol Cymru 2022**<br>Diolchodd CM i bawb a ddaeth i weld Tîm Tyfu Canolbarth Cymru yn y Sioe Frenhinol ym mis Gorffennaf. Roedd y Tîm yn ddiolchgar iawn am hynny.<br><br>Mae’r Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol wedi bod yn cynorthwyo swyddogion yr awdurdodau lleol i fapio gweithgarwch a gwaith cyflawni yn y rhanbarth er mwyn llywio’r gwaith blaengynllunio ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Y flwyddyn 2023 fydd blwyddyn olaf rhaglen weithredol gyfredol yr UE yng Nghymru. Ceir gwaith mapio i egluro pa brosiectau a gweithgareddau sy’n gorffen a ble y gallai’r bylchau fod yn y dyfodol, fel bod ffrydiau cyllido eraill e.e. y Gronfa Ffyniant Gyffredin neu ffrydiau eraill, yn gallu mynd i’r afael â’r bylchau hynny yn y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| | Mae dau bapur wedi'u paratoi ar gyfer heddiw: Adroddiad y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol ac atodiad ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Gellir mynd â'r atodiad yn ôl i sefydliadau a'i rannu â chydweithwyr er mwyn iddo gael ei ddefnyddio yn y dyfodol. Mae'n amlinellu sefyllfa gyfredol prosiectau a rhaglenni sy'n cael eu hariannu gan Ewrop ac sy'n dal i weithredu yn rhanbarth y canolbarth yn 2023 a hyd at ddiwedd rhaglen yr UE. Mae llawer o raglenni wedi neu wrthi'n cael eu hailbroffilio gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru er mwyn ymestyn y prosiectau a gweithgareddau cyhyd ag sy'n bosibl yn 2023. Efallai y bydd dyddiadau gorffen prosiectau, sydd yn yr atodiad, yn newid yn y dyfodol ond maent yn gywir ar hyn o bryd. Mae'r adroddiad wedi'i rannu yn unol â meysydd gweithgarwch a strwythur y rhaglen weithredol gyfredol. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r ffocws wedi bod ar y prosiectau ymchwil ac arloesi, ac mae rhestr ar dudalen un yn nodi beth sy'n parhau a heb orffen eto yma yn y canolbarth. Dan Flaenoriaeth 2, Cystadleurwydd Busnesau Bach a Chanolig, sef y gweithgarwch cymorth busnes, ceir diweddariad ynghylch gwasanaeth Busnes Cymru. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd tendrau ar gyfer cyfnod nesaf y gwasanaeth cymorth busnes, a fydd yn gweithredu tan 2025. Ni fydd y cyllid ar gyfer Busnes Cymru ar yr un lefel ag yr oedd o'r blaen, a bydd rhai rhannau o'r gwasanaeth yn dod i ben. Bydd angen i awdurdodau lleol ystyried hynny wrth gynllunio ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin a ffynonellau eraill o gyllid. Mae gwaith ymgysylltu wedi bod yn digwydd â'r sector mentrau cymdeithasol, e.e. Cwmpas, drwy'r grwpiau llywio sefydlog sydd gan y prosiectau hynny, a bydd y gwaith hwnnw'n parhau.<br><br>Mae'r adroddiad yn nodi ble y mae'r rhanbarth arni o safbwynt prosiectau sy'n cael eu hariannu gan Ewrop, a dywedodd CM y byddai'n croesawu trafodaeth gan aelodau'r grŵp os oedd unrhyw feysydd penodol yr hoffent roi sylw iddynt. Bydd y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol yn cadw golwg fanwl ar y prosiectau ac ar unrhyw waith a fydd yn dod i ben yn ystod y 6-9 mis nesaf.<br><br>Mae gwaith y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol wedi bod yn canolbwyntio ar arloesi yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgynghori ynghylch ei Strategaeth Arloesi drawslywodraethol, integredig, newydd. Mae'n strategaeth wahanol iawn sydd wedi'i llunio o amgylch y nodau llesiant. Disgwylir Cynllun Gweithredu'r strategaeth yn y flwyddyn newydd.<br><br>Mae Tyfu Canolbarth Cymru wedi bod yn monitro'r sefyllfa o safbwynt cyllid arloesi, oherwydd nid yw'n glir beth fydd y ffrydiau cyllido yn y dyfodol. Rydym yn gwybod erbyn hyn bod Ymchwil ac Arloesi yn y DU, a ariennir gan Lywodraeth y DU, wedi dechrau cyhoeddi galwadau'n ymwneud â chyllid sy'n seiliedig ar leoedd. Bwriedir i'r ymatebion i'r galwadau hynny gael eu harwain gan awdurdodau lleol, neu gan fwy nag un awdurdod lleol ar y cyd, a gan bartneriaid gweinyddu datblygiadau. Mae hwn yn ddull gweithredu newydd, oherwydd fel rheol caiff cyllid ei ddarparu gan fusnesau neu sefydliadau ymchwil sy'n gyrff arweiniol. Cynhaliwyd trafodaethau â chymheiriaid yn y gogledd a rhanddeiliaid yn y canolbarth, a phenderfynwyd mynegi diddordeb wrth Ymchwil ac Arloesi yn y DU mewn cael safle lansio ar gyfer gweithgarwch ym maes technoleg amaethyddol yn y canolbarth a'r gogledd. Bydd y Bartneriaeth yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn gyson am gynnydd y cais hwn. Yn awr, mae sefydliadau'r DU yn sianelu cyllid sy'n seiliedig ar leoedd drwy'r awdurdodau lleol, ac mae rhagor o gyfleoedd llai o faint wedi ymddangos. Ni chafodd y wybodaeth hon ei chynnwys yn yr adroddiad oherwydd amserlenni tynn, ond diolch i Rhian Heywood ac ArloesiAber am dynnu ein sylw at y cyfle.<br><br>Y blaenoriaethau i'r Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol yn ystod y misoedd nesaf fydd y broses o ddod â phrosiectau i ben ar draws y rhanbarth a gweithio gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar effaith y ffaith bod cyllid Ewropeaidd yn gorffen. |

Diolchodd y Cadeirydd i CM am y papur cynhwysfawr a gyflwynwyd, a oedd yn pwysleisio pa mor helaeth yw'r rhaglenni a ariennir gan yr UE a pha mor bwysig y maent wedi bod i'r rhanbarth. Nodwyd na fydd arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ddigon i lenwi'r bylchau y bydd arian yr UE yn eu gadael, ac y bydd patrwm gwariant y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn hollbwysig i'r rhanbarth. Mae'n bwysig bod y Bartneriaeth yn deall beth y bydd y rhanbarth yn mynd drwyddo ac yn deall maint y newid o safbwynt ffrydiau cyllido a gwaith gweinyddu.

**CWESTIYNAU/SYLWADAU**

***Y Cadeirydd***: Allwch chi ddangos y gwahaniaeth rhwng swm cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin a swm blynyddol cyllid yr UE?

***CM***: Roedd y cyhoeddiadau cyntaf am y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn sôn am oddeutu £44 miliwn dros gyfnod o 3 blynedd ar gyfer y rhanbarth, a oedd yn cynnwys y gweithgarwch lluosi. O gymharu, cafodd ArloesiAber £44.5 miliwn o gyllid (cyfalaf a refeniw) fel un prosiect yn y rhaglen gyfredol. Nid oedd CM yn gallu darparu cymhariaeth lawn, ond roedd yn fodlon edrych ar hynny os oedd angen.

***RLlM***: Ceir pryder am feysydd lle mae cyllid y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn dod i ben, a beth fydd y ffrydiau cyllido amgen i gefnogi'r gwaith sy'n ymwneud â sgiliau, ymchwil ac arloesi. Bydd y Brifysgol yn cydweithio'n agos â'r awdurdodau lleol, y sector preifat a phartneriaid eraill i sefydlu'r llwybrau ar gyfer y meysydd a grybwyllir uchod. Mae'n peri pryder i ni, a byddwn yn chwilio am syniadau arloesol ar gyfer cryfderau'r rhanbarth hwn.

***Cyngh. Clive Davies (Cyngh. CD)***: Roedd dogfen ddiweddar yn dangos diffyg o £1.1 biliwn yng Nghymru pan fydd cyllid yr UE wedi dod i ben. Mae'n hollbwysig bod y gwaith y mae CM yn ei wneud a'r partneriaethau sy'n cael eu creu yn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu'n digwydd ar draws Cymru a'n bod yn rhannu gwybodaeth am yr hyn a wnawn.

***CM***: Mae'n sefyllfa gymhleth iawn gan nad yw cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn gyllid sy'n dod yn uniongyrchol yn lle arian yr UE. Ni fydd yr arian yn cael ei wario ar yr un meysydd gweithgarwch. Mae'r cyllid yn dod i'r canolbarth, ond drwy ddulliau gwahanol, e.e. Ymchwil ac Arloesi yn y DU. Ond mae angen mapio o ble y mae'r cyllid yn dod.

***ArW***: A fyddai'n bosibl nodi beth sydd mewn perygl a beth fydd effaith uniongyrchol y newidiadau o ran cyllid ar unigolion ac ar y prosiectau sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn y canolbarth?

***CM***: Mae'n anodd amcangyfrif yr effaith yn awr. Ceir bwlch o ran gwybodaeth oherwydd bod cronfeydd wedi bod yn strwythurau yn y gorffennol. Heddiw sonnir am Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ac am y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, ond mae gennych gyllid y Cynllun Datblygu Gwledig hefyd ac mae Hybu Cig Cymru, er enghraifft, wedi cael llawer o gyllid dan y rhaglen honno.

***CJ-E***: Mae'r dirwedd o ran cyllid yn dameidiog ar hyn o bryd, ac mae cyllid yn dod o wahanol ffynonellau. Mae targedau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn wahanol, o safbwynt eu cwmpas a'u graddfa, i'r hyn a oedd ar waith o'r blaen gyda Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Mae'r Gronfa Ffyniant Bro yn wahanol hefyd, fel y mae cyllid arloesi arall. Mae ymarfer mapio'n digwydd ar hyn o bryd gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ynghylch y cyllid a'r effeithiau. Mae CJ-E yn fodlon ymdrin â'r mater hwn gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu'n digwydd. Mae'r ddau Arweinydd yn aelodau o'r Fforwm Strategol ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yn dilyn Brexit. Mae'n bwysig nad ydym yn colli cyfleoedd, felly mae'r ymarferion mapio'n bwysig iawn yn ogystal â'r angen i ddeall beth yw'r blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer anghenion lleol a pha gyfleoedd a allai fod ar gael. Bydd llywodraethu rhanbarthol yn

| | |
|---|---|
| | y dyfodol yn bwysig, yn ogystal â dealltwriaeth glir ynghylch beth sy'n ofynnol ar lefel ranbarthol a lleol yn y canolbarth. Pan fydd telerau ac amodau yn eu lle gyda'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, bydd modd cynllunio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a darpariaethau cenedlaethol.<br><br>**GWEITHREDU:** CM i ddarparu papur diweddaru ar gyfer y cyfarfod nesaf gyda throsolwg cynhwysfawr sy'n ymdrin â chyllid yr UE hyd yma a'r math o gyllid sydd ar gael i olynu cyllid yr UE, ond nid y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn unig.<br><br>**6.2 Y Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith**<br>Darparodd Ann Elias (AE) adroddiad ysgrifenedig, ac roedd wedi paratoi cyflwyniad a oedd yn tynnu sylw at y canlynol:-<br><br>• Gwelliannau i'r rheilffordd ar Draphont y Bermo, gyda'r trydydd cam wedi'i gymeradwyo. Buddsoddiad cyfnod 6 â rheolaeth gyfan gwbl gan Network Rail.<br>• Y wybodaeth yn Adroddiad Blynyddol Trafnidiaeth Cymru a'r cyllid sydd wedi'i wario hyd yma eleni, a'r cynllun busnes arfaethedig ar gyfer 2022/23. Mae'r cynnydd mewn cyllid yn mynd â'r swm i £870 miliwn.<br>• Y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth. Ymgynghorir yn ei gylch, ac mae'r blaenoriaethau yn cynnwys dod â gwasanaethau at bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio; galluogi pobl a nwyddau i symud yn hwylus o ddrws i ddrws drwy wasanaethau a seilwaith trafnidiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon; ac annog pobl i ddechrau defnyddio trafnidiaeth fwy cynaliadwy.<br>• Ymgynghoriad ynghylch yr arweiniad ar arfarnu trafnidiaeth Cymru (WelTAG) – trafnidiaeth gynaliadwy a'r blaenoriaethau hierarchaidd. Cerdded a beicio, trafnidiaeth gyhoeddus, cerbydau allyriadau isel a cherbydau preifat eraill. Dyma sut y bydd y rhaglen yn symud yn ei blaen yn y dyfodol.<br>• Deddfwriaeth Senedd Cymru ynghylch cyfyngiad cyflymder o 20 milltir yr awr. Gwybodaeth am sut y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu o fis Medi 2023 ymlaen.<br>• Y cynllun *Future of Freight*. Pum maes â blaenoriaeth, a'r modd y byddant yn cael eu datblygu yn y dyfodol.<br>• Ymgysylltu trawsffiniol. Cyflwynodd Midland Connect achos busnes i'r Adran Drafnidiaeth er mwyn gwella'r rheilffordd rhwng Amwythig, yr Ardal Ddu a Birmingham a'i thrydaneiddio. Os caiff y gwaith ei gyllido, byddai'n gwella'r rhan o'r rheilffordd sydd yn ein rhanbarth ni ac yn ei gwneud yn bosibl teithio'n gynt i orsaf Birmingham International.<br>• Midland Connect a Llywodraeth Cymru – Gwaith trawsffiniol ar Gysylltedd yr Undeb, yn dilyn adroddiad Syr Peter Hendy ym mis Tachwedd 2021, a oedd yn cyfeirio at reilffyrdd yng Nghymru a'r achos dros newid. Mae'n nodi cysylltedd trawsffiniol â rheilffordd y Cambrian, rheilffordd Calon Cymru, rheilffordd Amwythig a Chaer a rheilffordd y Gororau. Mae'n darparu cipolwg ar ddata i gefnogi achos busnes. Gellir defnyddio'r wybodaeth ystadegol a ddarperir ar gyfer prosiectau yn y dyfodol ac i annog buddsoddi.<br>• Yr achos dros newid a'r argymhellion<br>    a. Sicrhau bod y rhwydwaith rheilffyrdd yn fwy dibynadwy, lleihau amserau teithio a chynyddu amlder.<br>    b. Gwella cysylltiadau'r gogledd a'r de yn Amwythig<br>    c. Mae'r rheilffyrdd yn llai cystadleuol os oes angen i deithwyr newid trenau, felly y teithiau sy'n cynnig y cyfleoedd gorau o ran twf yw'r |

rheini lle nad oes angen newid trenau i gyrraedd gorsaf Birmingham International, Llundain a Crewe.

- Y camau nesaf. Mae darn o waith mwy technegol wedi'i gomisiynu, a fydd yn dechrau archwilio'n fanylach yr heriau sy'n bodoli.

Mae Midland Connect wedi cadarnhau ei fod wrthi'n cyflawni darn bach o waith ar y gwerthusiad, a'r gobaith yw y bydd ar gael erbyn y Nadolig.

***CWESTIYNAU/SYLWADAU***

***Cyngh. BD***: Mae yna fwlch enfawr rhwng Ceredigion a'r de, ac mae darn o waith a wneir ar hyn o bryd yn ystyried y posibilrwydd o ailagor y rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin. A yw hynny'n rhywbeth a gaiff ei ystyried dan TraCC?
***AE***: Roedd y darn penodol hwn o waith yn cael ei gyflawni gan Midland Connect ar y rhwydwaith rheilffyrdd sy'n bodoli eisoes. Byddai'r cyfle i werthuso ailagor hen reilffyrdd, a symud y gwaith hwnnw yn ei flaen, yn rhan o waith y byddai angen cyllid gan Lywodraeth y DU ar ei gyfer. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Trafnidiaeth Cymru wneud rhywfaint o waith dadansoddi pen desg, a'r gobaith yw y bydd modd dod â'r gwaith hwnnw'n ôl rywbryd i'r cyfarfod hwn.
***Cyngh. Keith Henson (Cyngh. KH)***: O ystyried Pwynt 3.4.1 a'r blaenoriaethau sy'n ei gwneud yn bosibl i lwythi gael eu cludo'n haws a thrwy ddulliau teithio mwy cynaliadwy, mae angen i ni ystyried dulliau teithio o fewn yr ardal, yn enwedig i ddysgwyr. Yng Ngheredigion yn ddiweddar, ni chafodd unrhyw dendrau eu cyflwyno i weithredu llwybr bysiau. Mae hynny'n golygu na fydd gan y prif lwybr rhwng Llanbedr Pont Steffan ac Aberystwyth wasanaeth, ac y bydd yr awdurdod yn wynebu her wrth ystyried beth y gellir ei wneud. Mae yna sawl ffactor sy'n ei gwneud yn anodd i rywun weithredu'r gwasanaeth – costau sy'n cynyddu, prinder gyrwyr, a'r ffaith bod nifer y teithwyr yn fach. Mae'n amlwg bod angen pwyso ar Lywodraeth Cymru i ystyried sut y gellir darparu trafnidiaeth gyhoeddus yn briodol mewn ardaloedd gwledig megis y canolbarth.
***Cyngh. David Selby (Cyngh. DS)***: Mae'n dda gweld nad yw'r rhwydwaith trafnidiaeth yn gorffen yn Amwythig, a'i fod yn mynd ymhellach. Mae gwasanaethau'n gorffen yng ngorsaf New Street, ond mae angen iddynt fynd ymlaen i orsaf Birmingham International a fydd yn cysylltu â HS2.
***Cyngh. Jackie Charlton (Cyngh. JC)***: Rydym yn gwneud cynnydd o safbwynt sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn nes at frig yr agenda. Cymharodd y Cyngh. JC y sefyllfa â'r sefyllfa yn Hartlepool lle gall pobl gyrraedd Llundain, a Llundain yn unig. Mae'r un peth yn wir yn y canolbarth. Mae'n bwynt pwysig i'w wneud, oherwydd dylai gwasanaethau bws gysylltu â gwasanaethau trên er mwyn i deithwyr allu cael teithiau di-dor. Mae angen marchnata er mwyn hyrwyddo'r hyn a wneir, a thynnodd y Cyngh. JC sylw at y llythyr newyddion a anfonwyd allan yn ddiweddar a oedd yn rhoi gwybod i randdeiliaid am y gwaith a wneir yn y rhanbarth i wella'r rhwydwaith trafnidiaeth a dulliau llesol o deithio. Ym Mhowys, mae niferoedd teithwyr yn dal i gynyddu, ac mae angen hyrwyddo a marchnata hynny'n barhaus.
Dywedodd y ***Cyngh. KH***, wrth ystyried yr adolygiad ffyrdd, fod disgwyl diweddariad cyn bo hir. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r gorau i adeiladu ffyrdd newydd, ond mae angen i ni wneud yn siŵr bod trafnidiaeth gyhoeddus yn gweithredu ar y ffyrdd sydd gennym eisoes er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu symud o gwmpas y rhanbarth ar adegau hyblyg i gyrraedd eu gwaith neu'u lleoliad addysg. Bydd hynny o fudd hefyd i economi'r rhanbarth.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr adroddiad yn ymdrin â rheilffyrdd, ond gofynnodd beth sy'n cael ei wneud am y problemau o ran cysylltiadau ffyrdd yn y rhanbarth, gan gyfeirio at ffordd yr A44 cyn iddi adael Cymru i fynd i mewn i Swydd Henffordd, lle mae ei chyflwr yn dirywio'n ddifrifol. Mae rhwydweithiau ffyrdd trawsffiniol yn wael, felly beth sy'n cael ei wneud o safbwynt mynd i'r afael â'r problemau hynny? A fydd y

| | |
|---|---|
| | Bartneriaeth yn gweld yr adroddiad a ddisgwylir am y seilwaith ffyrdd mewn cyfarfod yn y dyfodol?<br>***AE***: Mae gwaith yn cael ei wneud ar draws y ffin gyda phartneriaid yn Swydd Amwythig a Swydd Henffordd. Mae'r A483 a'r A458 ar yr agenda'n bendant, mae'r mater yn rhan o raglen strategol National Highways ar ran Llywodraeth y DU ac mae gwaith wedi dechrau ar achos busnes. Yn anffodus, mae'r gwaith ar stop ar hyn o bryd oherwydd yr Adolygiad Ffyrdd yng Nghymru a'r diffyg gwybodaeth am fuddsoddi gan Lywodraeth Cymru; roedd y gwaith hwn yn weithgarwch a oedd yn fuddsoddiad ar y cyd yng nghyswllt y ffyrdd trawsffiniol. Nes y bydd adroddiad Adolygiad Ffyrdd Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi, ni all dim byd ddigwydd am 12 mis, ond gobeithir y bydd modd ailddechrau'r gwaith pan fydd safbwynt Cymru yn hysbys. O ran cyhoeddusrwydd, rhaid diolch i Angharad Massow, y Swyddog Cyfathrebu, am lythyr newyddion Tyfu Canolbarth Cymru ac am y cyhoeddusrwydd y mae wedi'i roi i'r negeseuon yr oedd angen iddynt gael eu rhannu. Mae Llywodraeth Cymru yn dechrau rhaglen newid ymddygiad yng nghyswllt Trafnidiaeth Cymru. Wrth fuddsoddi mewn trafnidiaeth, mae a wnelo'r hyn a wneir mewn gwirionedd â newid agweddau. Mae'r rhaglen yn dechrau yn y de-ddwyrain, felly bydd yn ddiddorol gweld beth a ddaw o hynny cyn iddi gael ei chyflwyno ar draws Cymru gyfan. Dylid ymestyn gwaith marchnata a chyhoeddusrwydd, oherwydd mae angen i ni rannu negeseuon ac mae angen i bobl gael gwybod sut y dylent ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a sut y gallant elwa o hynny. Mae angen i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn bysiau er mwyn symud yr agenda yn ei blaen. Mae'n ffrwd o gyllid refeniw nad yw'n hawdd cael mynediad iddi.<br><br>**6.3 Y Rhaglen Trawsnewid Trefi**<br>Ymddiheurodd Arwyn Davies (AD) am fethu â mynychu'r cyfarfod. Gadawodd Deralyn Mawdsley (DW) o Lywodraeth Cymru y cyfarfod yn gynnar, ond gofynnodd am i unrhyw sylwadau a chwestiynau ynghylch y Rhaglen Trawsnewid Trefi gael eu hanfon ati. Nid oedd dim byd arall i'w ychwanegu at yr eitem hon ar yr agenda. |
| **7.** | **Diweddariadau gan y Llywodraeth(au)**<br>**7.1 Diweddariad gan Lywodraeth Cymru**<br>Rhoddodd Ann Watkin y diweddariad. Cydnabu AW fod y cyfarfod wedi bod yn un addysgiadol iawn. Bydd y pwyntiau'n cael eu hanfon at gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, a fydd yn cynnwys rhai sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, y cynllun sgiliau rhanbarthol, a'r dirwedd o ran cyllid pan fydd cyllid yr UE yn dod i ben. Mae Lee Waters AS wedi comisiynu cyngor annibynnol ynghylch yr Adolygiad Ffyrdd, sydd wedi'i ysgogi gan safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddatgarboneiddio. Bydd yna benderfyniadau anodd i'w gwneud yn y dyfodol am raglenni adeiladu ffyrdd yng Nghymru, a bydd diweddariadau'n cael eu darparu cyn gynted ag y bo modd.<br><br>Mae gwaith yn parhau i ddigwydd gyda'r rhanbarth ar Fargen Twf Canolbarth Cymru. Y rhanbarthau sy'n penderfynu pa brosiectau/rhaglenni y maent am eu cyflawni; nid Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU sy'n eu pennu. Bydd cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar y sicrwydd a geir gan y rhanbarth y bydd y prosiectau'n cael eu symud yn eu blaen yn gywir. Mae Llywodraeth Cymru/Llywodraeth y DU am weld bod y £110 miliwn yn cael ei ddefnyddio i hybu rhaglen ehangach o fuddsoddi rhanbarthol drwy ysgogi cyllid gan y sector preifat a chyllid arall, drwy'r portffolio o achosion busnes. Bydd hynny cyn bod y llythyr ynghylch cyllid yn cael ei roi. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weithio gyda'r rhanbarth a'r Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer y Sector Preifat, sydd ar waith, ond mae hefyd yn sylweddoli beth yw cyflwr yr economi ar hyn o bryd a sut y bydd yn effeithio ar sicrhau'r buddsoddiad hwnnw. |

| | |
|---|---|
| | Hyd yma, mae gwasanaethau Busnes Cymru wedi cael eu hariannu â chyllid gan yr UE a Llywodraeth Cymru. Mae tendr wedi'i gyhoeddi er mwyn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth ar ôl i gyllid yr UE ddod i ben.<br><br>Mae'r cyfarfod i ymgynghori ynghylch y Strategaeth Ymchwil ac Arloesi wedi bod yn llwyddiannus yn Aberystwyth ac mae gwaith yn mynd rhagddo i fireinio'r strategaeth. Mae'n ymrwymiad dan y cytundeb cydweithio â Phlaid Cymru. Cafodd Rhaglen ARFOR ei chyhoeddi'n gynharach yn 2022. Nid yw'n berthnasol ym Mhowys ond mae'n ymdrin â Cheredigion. Menter ar y cyd gan Gynghorau Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn yw ARFOR er mwyn ystyried ymyriadau economaidd sy'n hybu'r Gymraeg ac yn hybu datblygiad economaidd y cymunedau dan sylw. Y gobaith yw y bydd y dysgu a fydd yn digwydd yn sgil yr ymyriadau hyn yn cael ei ymestyn i ardaloedd eraill ac y bydd yn fuddiol.<br><br>Roedd yn braf gweld y datganiad i'r wasg ynghylch Parc Busnes Aber-miwl gan Gyngor Sir Powys. Roedd yn ffrwyth gwaith ar y cyd â Chyngor Sir Powys, a chafodd gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio ar draws y rhanbarth ar sawl maes sydd o fudd i bob partner.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n fuddiol i'r sector preifat pe bai modd i Lywodraeth Cymru gyhoeddi gwybodaeth megis y strategaeth ffyrdd, sy'n hollbwysig i seilwaith y rhanbarth. Mae'r sgwrs am y seilwaith ffyrdd wedi bod yn mynd rhagddi ers blynyddoedd lawer ac mae'n bwysig bod y dogfennau hyn yn cael eu cyhoeddi.<br><br>**7.2 Diweddariad gan Lywodraeth y DU**<br>Rhoddodd Catherine Isik (CI) ddiweddariad byr. Mae asesiadau Rownd 2 y Gronfa Ffyniant Bro ar y gweill, a disgwylir ateb erbyn diwedd y flwyddyn galendr.<br><br>**CWESTIYNAU**<br>Cyngh. JC: Allwch chi esbonio Rownd 2 y Gronfa Ffyniant Bro, os gwelwch yn dda? Ai dyna'r rownd y mae disgwyl wedi bod am ei chanlyniadau, ynteu a yw'n rownd newydd?<br>CI: Cafodd y rownd hon ei chomisiynu yn ystod yr haf, a mis Awst oedd y dyddiad cau ar gyfer cynigion ynghylch prosiectau cyfalaf. Mae cyllid Rownd 1 wedi'i ddyrannu, a disgwylir y canlyniadau ar gyfer Rownd 2 erbyn diwedd y flwyddyn galendr. |
| **8.** | **Diweddariad ynghylch gweithgarwch sy'n berthnasol i'r canolbarth**<br>**8.1 Prosiect BEACON – Prifysgol Aberystwyth – Yr Athro Iain Donnison a David Bryant**<br>Rhoddodd yr Athro Iain Donnison gyflwyniad gyda'i gydweithiwr David Bryant o Brifysgol Aberystwyth. Diolchodd yr Athro Donnison i'r Bartneriaeth am y cyfle i roi cyflwyniad yn y cyfarfod, ac anogodd y sawl nad ydynt wedi ymweld â Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) eto i gysylltu er mwyn gweld peth o'r gwaith sy'n mynd rhagddo.<br><br>Mae'r prosiect BEACON wedi'i ariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, ac mae wedi cael amryw fathau eraill o gyllid prosiect gan yr UE yn y gorffennol. Yr her i IBERS erbyn hyn yw dod o hyd i gyllid drwy gyfleoedd newydd. Mae gan IBERS gymheiriaid mewn rhannau eraill o'r DU, ac mae wedi bod yn cydbwyso cyllid gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU â ffynonellau eraill o gyllid gan Lywodraeth Cymru a'r UE. Mae'r prosiect BEACON wedi bod yn gweithredu ers tua 12 mlynedd gyda phedair prifysgol yng Nghymru. Dechreuodd gyda Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac ymestynnodd i Dde-ddwyrain Cymru. Mae'n cynnwys Prifysgol Aberystwyth, |

| | |
|---|---|
| | Prifysgol Bangor, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol De Cymru sy'n cydweithio ar brosiectau Ymchwil a Datblygu cydweithredol â diwydiant.<br><br>IBERS yw'r sefydliad ymchwil ym Mhrifysgol Aberystwyth sy'n ymdrin ag agweddau ar dechnoleg amaethyddol, ond sy'n ymdrin â bioeconomi hefyd. Mae IBERS yn ymwneud â naw agwedd sy'n cynnwys gwyddor cnydau a rhaglenni bridio planhigion, sy'n deillio o Fridfa Blanhigion Cymru, ac ystod o wasanaethau technoleg ategol sy'n cynnwys cwmnïau ymchwil preifat ym maes bridio planhigion, sy'n gweithio yn IBERS. Mae'r gwaith yn treiddio i agweddau ar ddefnydd ac effaith, megis systemau amaethyddol a'r fioeconomi. Mae IBERS yn rhan o nifer o gyd-fentrau a threfniadau cydweithio, sy'n cynnwys BioPilots UK, National Institutes of Biosciences a'r Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol. Ceir manylion am hynny yn y cyflwyniad.<br><br>Prifysgol Aberystwyth yw'r unig brifysgol yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar amaethyddiaeth, bwyd a gwyddorau milfeddygol, ac mae'n perfformio yn dda iawn yn genedlaethol ac yn rhagori ar brifysgolion nodedig eraill.<br><br>O ran sgiliau, yn ogystal â defnyddio dulliau addysgu mwy traddodiadol, mae IBERS hefyd yn darparu cyfleoedd i ddysgu o bell, sy'n canolbwyntio ar raglenni Datblygiad Proffesiynol Parhaus ac sy'n ymdrin â modiwlau a all arwain at radd uwch, ond sy'n ymwneud â sgiliau – dysgu sgiliau newydd neu ddiweddaru sgiliau sy'n bodoli eisoes.<br><br>David Bryant, Uwch Gymrawd Ymchwil, roddodd ran nesaf y cyflwyniad, a oedd yn ystyried y rhaglen BEACON ac yn tynnu sylw at nifer o brosiectau sydd wedi bod yn rhan o'r rhaglen.<br><br>Cyngh. KH: Roedd y Cyngh. KH a'r Cyngh. BD wedi bod i weld y gwaith a wneir yn IBERS a byddent yn annog pawb i fynd i weld y cyfleusterau a'r gwaith a gyflawnir yno. Mae modd adfywio'r economi drwy'r prosiectau hyn, a gellid eu hymestyn er mwyn i ardaloedd eraill gael budd ohonynt.<br>Diolchodd y Cadeirydd i'r Athro Donnison a'i gydweithwyr am estyn croeso iddo ef a'i gydweithwyr o Gyngor Sir Powys i'r cyfleuster yn ddiweddar. Roedd yn ddiwrnod da iawn ac roedd yn ddiddorol gweld pa waith sy'n mynd rhagddo. Diolchodd hefyd i'r Athro Donnison a David Bryant am eu cyflwyniad addysgiadol heddiw.<br><br>**GWEITHREDU:** Dosbarthu'r cyflwyniad i aelodau'r Bartneriaeth ar ôl y cyfarfod (BG).<br><br>**8.2 Y Rhwydwaith Gwledig a Rennir – Ant Morgan**<br>Ymddiheurodd Ant Morgan am fethu â rhoi cyflwyniad yn y cyfarfod oherwydd prinder amser ac ymrwymiadau cyfarfodydd eraill. Mae wedi cynnig rhoi cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf.<br>Awgrymodd David Owen (DO) y gallai gynnig gweminar ar wahân i'r rhai sydd â diddordeb, gan y byddai ychydig fisoedd yn pasio cyn i'r cyfarfod nesaf gael ei gynnal. Bydd y Rhwydwaith Gwledig a Rennir yn cael effaith fawr ar draws y rhanbarth, oherwydd bydd mwy o fastiau ffonau symudol yn cael eu codi yn ystod y blynyddoedd nesaf, ac mae'n bwysig bod Cynghorwyr a rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r cynlluniau.<br><br>**GWEITHREDU:** DO i ddosbarthu gwahoddiad i aelodau'r Bartneriaeth fynychu gweminar ar wahân i ymdrin â'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir. Y dyddiad i'w gadarnhau. |

| | |
|---|---|
| **9.** | **Unrhyw fater arall**<br>Gofynnodd Gary Mitchell (GM) o Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys a fyddai'n bosibl dosbarthu'r cyflwyniad cyn y cyfarfod arfaethedig ynghylch y Rhwydwaith Gwledig a Rennir, fel bod rhywfaint o wybodaeth ar gael cyn y weminar. Gofynnodd hefyd a oedd mynediad i unrhyw un o'r papurau a gyflwynwyd ar gyfer y cyfarfod wedi'i gyfyngu, oherwydd byddai'n braf pe bai modd i'r wybodaeth a ddarparwyd gael ei dosbarthu'n ehangach. Cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau. Cadarnhaodd AE fod Midlands Connect yn fodlon i'w adroddiad gael ei rannu'n ehangach.<br><br>Roedd ArW am longyfarch y tîm ar gynnal Rali Bae Ceredigion. Roedd yn ddigwyddiad gwych i'r rhanbarth, a bydd yn dychwelyd i fod yn rhan o'r bencampwriaeth ralio y flwyddyn nesaf. Roedd nifer yr ymwelwyr a gefnogodd yr economi leol oherwydd y rali yn syfrdanol.<br><br>Nid oedd unrhyw fater arall, felly daethpwyd â'r cyfarfod i ben. |
| **10.** | **Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol**<br>• Dydd Llun, 13 Chwefror 2023<br>• Dydd Llun, 8 Mai 2023 (gallai hwn newid oherwydd Gŵyl Banc newydd)<br>• Dydd Mawrth, 18 Medi 2023<br>• Dydd Llun, 6 Tachwedd 2023 |

Undeb Ewropeaidd European Union
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds